Searching for the centre

Introduction
Confluence is seeking to appoint an artist or artists' collaboration with a socially- engaged practice and an interest in place-based narratives to produce a multiple edition artwork for distribution or display.

Background

Confluence is a creative collaboration between PLANED, spacetocreate, iDeA Architects, Pembrokeshire County Council and Transition Haverfordwest. Confluence has been awarded funding from Ideas:People:Places, an Arts Council of Wales strategic initiative that seeks to test new models of regeneration and collaboration through the arts. Pembrokeshire County Council has provided partnership funding for the programme. Located in Haverfordwest, the three-year scheme is delivering a series of artist residencies and commissions alongside a town laboratory, the Lab – an evolving programme of experimental and creative projects aimed at developing innovative models of co-operation, creatively engaging the community with Haverfordwest town-centre regeneration opportunities, with a particular focus on the River Cleddau which runs through the town.

The Commission

Vision
The commission will take place between 1 September and 31 December 2016 in Haverfordwest, Pembrokeshire's County town, with the purpose of extending and widening the scope of work already undertaken in the Lab.

Fundamental to a town's vitality are the people who use the town: residents, shoppers, workers and visitors. Conventional thinking assumes a town has or should have a town centre but what is a town centre and how is this defined? Different users will have different perspectives and priorities.

By engaging with people who live, work and play in Haverfordwest and with key decision makers in the town, the commission offers an artist or artists' collaboration the opportunity to investigate the psycho-geographies of Haverfordwest, and create an artwork that captures and communicates the findings of the research process. Psycho-geography relates to the geographical environment of a particular location, considered with regard to its influence on the mind and behaviour: how do different places make us feel and behave?

Role of the artist
The aims of the commission are:

- To create an artistically excellent artwork rooted in social engagement that explores people's different perspectives on where Haverfordwest town centre is located, based on their association with place.
- To build on work carried out in year 1 of the Lab programme, in particular The Big Map, a series of workshops which invited individuals and organisations to reconnect with the

planning process in an on-going experiment that aims to create a People's Plan for Haverfordwest.
- To investigate the deeper emotional values about place that goes beyond the physical, commercial and economic drivers for change, demonstrating, and extending the work undertaken so far.
- To widen the artistic reach of the Confluence programme and develop opportunities for creative participation from a range of town centre users.
- To contribute to the process of changing people's perceptions of the town through a process of engagement and enquiry and the production of an artwork for distribution or display

The appointed artist will be expected to spend at least 30 days on the project.

In addition, the artist will be required to:

- Deliver an agreed programme of public engagement events, such as an artist's talk.
- Undertake a DBS check, if required, and provide proof of Public Liability insurance prior to the start of the commission.
- Participate in press and marketing opportunities relating to the commission.
- Agree for the work to be documented for promotional, evaluation and archival purposes.
- Provide regular reports on the progress of the commission and attend meetings as required.

Artistic quality
The artist must demonstrate a commitment to high quality and artistic merit. Quality and merit relate to innovation, creativity, vision, originality and the power to interpret and communicate ideas, as well as to the highest possible standard of delivery in all aspects of the commission's development and implementation.

Contract and reporting structure
The artist will be contracted by PLANED, on behalf of the Confluence consortium.
A member of the consortium will act as the designated project manager responsible for managing the commission and supporting the artist during the development and production of the work.

Copyright
The artist will retain copyright of the work and all reproductions of it. Confluence will be entitled to document the project for its archives and to use images of the finished work and of work in progress for publicity, evaluation and archival purposes.

Fee and Budget
A fee of £12,000 inclusive of VAT is offered for the commission. The fee is inclusive of all work undertaken, production and expenses. An additional budget to cover travel and accommodation costs is available if required (max £2000).

Application process
Applicants should provide:
- An outline proposal for the commission. This should set out initial ideas to be developed during the early stage of the commission and how the creative process will be opened up to public engagement.

- A statement about your practice, and how the commission fits within your practice
- Curriculum Vitae
- Up to ten images of your existing work. These must be submitted as digital files in JPEG format or QuickTime/ Media Player movies of not more than 30 seconds duration each.
- List of images. The list of images should identify the images and include the following details: Artist's Name, Number, Title, Medium, Date, Location and Commissioner (if relevant).
- A budget for the work with a breakdown defining fees, production costs and related expenses
- Names and contact details of two referees

Deadline for applications
The deadline for applications is 5pm on Wednesday, 29 June 2016.
Applications should be submitted by email to: tangwenr@planed.org.uk

Interviews
Shortlisted artists will be invited to an interview in Haverfordwest on Friday, 22 July 2016.

Selection
A panel that includes representatives of Confluence and the local community will make selection. Applicants should provide sufficient information with their submission to assist with evaluation based on the following criteria:

- Demonstrable understanding of the brief
- Quality of work
- Prior experience and capability
- Capacity to undertake the commission within the proposed timescale

Eligibility
Confluence is committed to equal opportunities and all applications will be judged according to the criteria set out above, purely on merit and without prejudice.

Further information
Requests for further information should be made to Kate Wood, Arts Development Officer
kate.wood@pembrokeshire.gov.uk
01437 776157

www.thelabhaverfordwest.org

If Confluence considers a query to have a material effect on the application process, all applicants will be notified of both the query and the response.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Chwilio am y canol

Cyflwyniad
Mae *Confluence* yn awyddus i benodi arlunwyr neu gydweithfa o arlunwyr, sydd wedi arfer gweithio mewn proses a diddordeb mewn hanesion yn seiliedig ar leoedd, i gynhyrchu gwaith i'w gyhoeddi mewn ffurf aml-rifyn neu ei arddangos.

Cefndir
Mae *Confluence* yn gydweithfa greadigol rhwng PLANED, *spacetocreate*, *iDeA Architects*, Cyngor Sir Penfro a Thrawsnewid Hwlffordd. Mae *Confluence* wedi derbyn nawdd gan Creu Cymunedau Cyfoes, menter strategol gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n ceisio profi cynlluniau newydd o adfywio a chydweithredu drwy'r celfyddydau. Mae Cyngor Sir Penfro wedi darparu cyllid partneriaeth ar gyfer y rhaglen. Wedi'i leoli yn Hwlffordd, mae'r cynllun tair blynedd yn cyflwyno cyfres o gyfnodau hyfforddi a chomisiynau i arlunwyr ar y cyd â labordy tref sef y Lab. Mae hon yn rhaglen ddatblygiadol o brosiectau arbrofol a chreadigol wedi'i hanelu at ddatblygu cynlluniau arloesol o gydweithredu. Mae'n ymgysylltu'r gymuned yn greadigol â chyfleoedd adfywio canol tref Hwlffordd. Bydd ffocws penodol ar Afon Cleddau sy'n llifo drwy'r dref.

Y Comisiwn

Gweledigaeth
Bydd y comisiwn yn cymryd lle rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2016 yn Hwlffordd, tref sirol Penfro. Y diben yw ehangu a lledaenu'r sgôp gwaith sydd yn cael ei ymgymryd eisoes yn y Lab.

Yn hanfodol i fywiogrwydd y dref yw'r bobl hynny sy'n defnyddio'r dref: preswylwyr, siopwyr, gweithwyr ac ymwelwyr. Mae meddylfryd confensiynol yn tybio fod gan dref, neu dylai fod gandi, ganol tref ond beth ydy canol tref a sut caiff ei ddiffinio? Bydd gan wahanol ddefnyddwyr safbwyntiau a blaenoriaethau gwahanol.

Drwy ymgysylltu â phobl sy'n byw, gweithio a chwarae yn Hwlffordd a chyda gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn y dref cynigia'r comisiwn y cyfle i arlunydd neu gydweithfa o arlunwyr ymchwilio i seico-ddaearyddiaethau Hwlffordd a chreu gwaith celf sy'n dal a chyfathrebu canfyddiadau'r broses ymchwilio. Mae seico-ddaearyddiaeth yn cyfeirio at amgylchedd daearyddol lleoliad penodol, gan ystyried ei ddylanwad ar y meddwl ac ymddygiad: sut mae lleoedd gwahanol yn gwneud i ni deimlo ac ymddwyn

Rôl yr arlunydd
Amcanion y comisiwn yw:

- Creu gwaith celf gwych yn artistig wedi'i wreiddio mewn ymgysylltiad cymdeithasol sy'n edrych ar safbwyntiau gwahanol pobl ar leoliad canol tref Hwlffordd, yn seiliedig ar eu cysylltiad â'r lle.
- Adeiladu ar waith a wnaed ym mlwyddyn 1 o raglen Lab – Y Map Mawr yn benodol. Roedd hon yn gyfres o weithdai a oedd yn gwahodd unigolion a sefydliadau i ailgysylltu â'r broses gynllunio mewn arbrawf parhau sy'n anelu at greu Cynllun Pobl i Hwlffordd.

- Archwilio gwerthoedd emosiynol dyfnach am y lle sy'n mynd y tu hwnt i yrwyr corfforol, masnachol ac economaidd ar gyfer newid, arddangos ac ymestyn y gwaith a ymgymerir hyd yma.
- Ehangu cyrhaeddiad artistig rhaglen *Confluence* a datblygu cyfleoedd am gyfranogiad creadigol gan ystod o ddefnyddwyr canol y dref.
- Cyfrannu at y broses o newid canfyddiadau pobl o'r dref drwy broses o ymgysylltu ac ymholi a chreu gwaith celf ar gyfer dosbarthu neu arddangos

Bydd disgwyl i'r arlunydd penodedig dreulio o leiaf 30 niwrnod ar y prosiect.

Yn ychwanegol, bydd gofyn i'r arlunydd:

- Gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltiad cyhoeddus y cytunwyd arni, fel sgwrs gan arlunydd er enghraifft.
- Ymgymryd â gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, os oes angen, a darparu prawf o yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyn dechrau'r comisiwn.
- Cytuno i'r gwaith gael ei ddogfennu i ddibenion hyrwyddol, gwerthusol ac archifol.
- Darparu adroddiadau cyson ar gynnydd y comisiwn a mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.

Ansawdd artistig
Rhaid i'r arlunydd arddangos ymroddiad i ansawdd uchel a rhinwedd artistig. Mae ansawdd a rhinwedd yn berthnasol i arloesedd, creadigrwydd, gweledigaeth, gwreiddioldeb a'r grym i ddehongli a chyfathrebu syniadau. Mae hefyd yn berthnasol i'r safon uchaf posibl o gyflwyniad ym mhob agwedd o ddatblygiad a gweithrediad y comisiwn.

Strwythur contract ac adrodd
Contractir yr arlunydd gan PLANED, ar ran consortiwm *Confluence*.
Gweithreda aelod o'r consortiwm fel y rheolwr prosiect dynodedig sy'n gyfrifol am reoli'r comisiwn a chynorthwyo'r arlunydd yn ystod datblygu a chynhyrchu'r gwaith.

Hawlfraint
Mae'r arlunydd yn cadw'r hawlfraint am y gwaith a holl atgynyrchiadau ohono. Bydd gan *Confluence* yr hawl i ddogfennu'r prosiect ar gyfer ei archifau a defnyddio lluniau o'r gwaith gorffenedig a gwaith ar y gweill i ddibenion cyhoeddusrwydd, gwerthuso ac archifol.

Ffi a Chyllideb
Cynigir ffi o £12,000 yn cynnwys TAW am y comisiwn. Mae'r ffi yn cynnwys yr holl waith a ymgymerir, y cynhyrchiant a chostau. Mae cyllideb ychwanegol i ofalu am gostau teithio a llety os oes angen (uchafswm o £2000).

Proses ymgeisio
Dylai ymgeiswyr ddarparu:
- Cynnig amlinellol i'r comisiwn. Dylai hyn osod syniadau cychwynnol i gael eu datblygu yn ystod cyfnod cynnar y comisiwn. Dylai hefyd osod sut y bydd y broses greadigol ar gael ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus.
- Datganiad am eich arfer, a sut y mae'r comisiwn yn gweddu o fewn eich arfer
- Curriculum Vitae

- Hyd at ddeg llun o'ch gwaith presennol. Dylid cyflwyno'r rhain fel ffeiliau digidol mewn fformat JPEG neu ffilmiau QuickTime/Media Player sydd ddim mwy na 30 eiliad o hyd yr un.
- Rhestr o luniau. Dylai'r rhestr o luniau nodi'r lluniau a chynnwys y manylion canlynol: Enw Arlunydd, Rhif, Teitl, Cyfrwng, Dyddiad, Lleoliad a Chomisiynydd (os yw'n berthnasol).
- Cyllideb am y gwaith gyda dadansoddiad yn diffinio ffioedd, costau cynhyrchu a chostau perthnasol
- Enwau a manylion cyswllt dau ganolwr

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm ar ddydd Mercher, 29 Mehefin 2016.
Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i: tangwenr@planed.org.uk

Cyfweliadau
Gwahoddir arlunwyr ar y rhestr fer i gyfweliad yn Hwlffordd ar ddydd Gwener, 22 Gorffennaf 2016.

Detholiad
Bydd panel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o *Confluence* a'r gymuned leol yn dewis. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth gyda'u cyflwyniad i gynorthwyo gyda gwerthusiad yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- Dealltwriaeth ddangosadwy o'r briff
- Ansawdd gwaith
- Profiad a gallu blaenorol
- Gallu i ymgymryd â'r comisiwn o fewn y raddfa amser arfaethedig

Cymhwysedd
Mae *Confluence* yn ymroddedig i gyfleoedd cyfartal. Bernir holl geisiadau yn ôl y meini prawf a osodwyd uchod, ar sail teilyngdod a heb ragfarn.

Gwybodaeth bellach
Dylid gwneud ceisiadau am wybodaeth bellach i Kate Wood, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
kate.wood@pembrokeshire.gov.uk
01437 776157

www.thelabhaverfordwest.org

Os bydd Confluence o'r farn y bydd ymholiad yn cael effaith faterol ar y broses ymgeisio, hysbysir yr holl ymgeiswyr am yr ymholiad a'r ymateb.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru